

Sul y Beibl

Darllen: Rhufeiniaid 15:4

Bum am gyfnod byr yn athro Ysgol Sul ar griw o oedolion, ac awgrymodd aelod o'r dosbarth y dylwn fynd ati i chwynnu'r Beibl; dewis a dethol yn ofalus y darnau pwysicaf, a'u crynhoi mewn un gyfrol hylaw. Yr awgrym oedd y dylwn gael gwared â rhannau o'r Beibl oedd yn dangos dialedd a chasineb Duw at ei bobl ynghyd â'r rhannau o'r Testament Newydd nad oeddent, ym marn yr aelod hwnnw, yn cydymffurfio â galwadau ein hoes wyddonol ni. Yr hyn oedd yn ddiddorol oedd bod gweddill y dosbarth yn unfryd y dylwn fynd ati ar frys i gyhoeddi'r fath gyfrol. Wel, a dweud y gwir, mae cyfrolau o'r fath ar gael yn Saesneg. Gwrthod cais y dosbarth wnes i, a'r cwestiwn nesaf yw 'Pam?'

Mae 'torri a gludo' yn rhywbeth a wnawn yn aml wrth weithio ar gyfrifiadur, ond a ellir gwneud hyn â'r Beibl? Mae'n rhaid wynebu'r ffaith bod sawl rhan o'r Beibl yn gallu bod yn dramgwydd i lawer. Beth am y geiriau hyn o Salm 137, 'Gwyn ei fyd y sawl sy'n cipio dy blant ac yn eu dryllio yn erbyn y graig' (adnod 9). Mae ysbryd dialgar yn cael ei adlewyrchu hefyd yn Salm 140, 'Bydded i farwor tanllyd syrthio arnynt; bwrier hwy i ffosydd dyfnion heb allu codi' (adnod 10). Ond nid yn Llyfr y Salmau'n unig y ceir yr elfen dreisgar hon. Dyma a geir yn Llyfr Samuel, 'Fel hyn y dywed yr Arglwydd y Lluedd: "Yr wyf am gosbi Amalec am yr hyn a wnaeth i Israel" ... Dos, yn awr, a tharo'r Amaleciaid, a'u llwyr dministrio hwy a phopeth sydd ganddynt' (1 Samuel 15:2-3). Mae Eseia'n mynegi'r un cysyniad, 'Canys y mae dicter yr Arglwydd yn erbyn yr holl bobl, a'i lid ar eu holl luedd' (Eseia 34:2). Mae'n sicr bod y rhannau hyn yn faen tramgwydd i sawl un. Beth wedyn am yr achau a geir ar ddechrau Llyfr Cyntaf Croniel ac ym mhenodau cyntaf Mathew a Luc? Oni ddylid dileu'r rhain? Ond mae'n rhaid cofio fod achau yn bwysig i'r Iddew, fel i ninnau heddiw. Faint ohonom sydd wrthi'n brysur yn olrhain hanes y teulu?

A dyma'r perygl wrth dorri a gludo. Yr hyn wnawn yw cyfyngu Duw i'n meidroldeb ni, a'i wneud yn ddrych o'n golygon a'n dyheadau ac yn estyniad o'n darlun ni ohono. Ac y mae hyn yn digwydd o fewn ein hamryfal enwadau yng Nghymru. Y perygl yw bod enwad neu sect yn credu mai nhw sy'n iawn – dim ond un safbwynt diwinyddol sy'n bod, a dyna lle maen nhw'n 'torri a gludo' er mwyn cyfiawnhau eu diwinyddiaeth. Does dim ymgais o gwbl i roi cefndir yr adnod neu'r adran yn eu cyddestun.

Ond efallai fod rhywbeth mwy ysgeler byth yn digwydd i'r Beibl yng Nghymru. Mae'n cael ei anwybyddu'n llwyr. Mewn angladd ar aelwyd, flynyddoedd maith yn ôl erbyn hyn, gofynnais am gael darllen pennod o Feibl y teulu. A dyna lle'r oedd y Beibl ar sil y ffenestr, a'r clasbiau'n disgleirio a phlanhigyn mynawyd y bugail arno. Ar yr aelwyd honno, addurn oedd y Beibl, llyfr nad oedd byth yn cael ei agor. Onid ydi hyn yn waeth pechod na 'thorri a gludo'? Hynny yw, ei anwybyddu'n gyfan gwbl?

Myfyrdod pellach:

Beth am y syniad o 'dorri a gludo'r' Beibl?

Pa hanesion o'r Testament Newydd fyddech chi'n eu torri allan?